Ysgol Tryfan

17/4/13

Annwyl Rieni

Yn dilyn cyfarfod o Is-bwyllgor Cwricwlwm y Llywodraethwyr, cytunwyd ar ehangu'r ystod o gymwysterau a gynigir i ddisgyblion blwyddyn 10 o Fedi 2013 ymlaen. Fel darpar rieni blwyddyn 10, hoffwn achub ar y cyfle i rannu'r wybodaeth gyda chi.

Penderfynwyd bod cwrs galwedigaethol Technoleg Gwybodaeth Lefel 2 Caergrawnt (sydd yn gyfystyr â 1 un TGAU safon A i C), yn cael ei gyflwyno i bob disgybl ym mlwyddyn 10 yn ystod gwers un awr wythnosol. Bydd y disgyblion sydd wedi dewis TGCh fel pwnc dewis eisoes yn astudio'r cwrs yn fanylach ac yn cyflawni cymhwyster sydd yn gyfystyr â dau TGAU. Golyga hyn mai un wers o Addysg Gorfforol orfodol yr wythnos yn unig fydd y disgyblion yn eu mynychu ac nid dwy fel sydd wedi bod yn digwydd yn y gorffennol.

Ar ddiwedd blwyddyn 11 bydd pob disgybl hefyd yn cael cymhwyster ychwanegol o hanner TGAU drwy ddilyn cwrs byr Addysg Grefyddol CBAC. Cyflwynir y pwnc hwn yn ystod gwers hanner awr yr wythnos.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth yn rhoi darlun clir i chi o'r newidiadau fydd yn digwydd i gwricwlwm disgyblion blwyddyn 10 o Fedi 2013 ymlaen.

Yr eiddoch yn gywir,

Mr Dyfrig Llŷr Jones
(Dirprwy Bennaeth)

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.tryfan.gwynedd.sch.uk

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur